



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhaglen Cefnogi Pobl: Y costau rheoli sy'n rhan o'r gwasanaeth Cefnogi Pobl

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 56/2015

Cyflwyno

Bwriad y rhaglen Cefnogi Pobl yw cefnogi pobl fregus i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Ar hyn o bryd, cyllideb gwasanaethau Cefnogi Pobl ar draws Cymru yw oddeutu £124 miliwn. Mae hyn yn cael ei rannu rhwng y 22 awdurdod lleol sy'n comisiynu gwasanaethau cefnogi gan dros 200 o ddarparwyr. Asiantaethau'r sector gwirfoddol yw'r rhan fwyaf o'r darparwyr gwasanaeth ond maen nhw hefyd yn cynnwys awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr o'r sector cyhoeddus.

Oherwydd y pwysau difrifol ar gyllid Llywodraeth Cymru, bydd cyllideb Cefnogi Pobl yn gostwng 7.6% ar gyfartaledd yn 2015/16. Mae hi felly yn bwysicach nag erioed ein bod ni'n cyfeirio cymaint o arian ag y gallwn ni at wasanaethau rheng flaen a bod costau fel costau rheoli yn lleihau.

Fel rhan o'r ymchwil, bu inni ddefnyddio amryw o ddulliau ymchwilio gwahanol gan gynnwys technegau ansoddol a meintiol yn ogystal â dadansoddi data sylfaenol ac eilaidd. Diben defnyddio amrywiaeth o dechnegau fel hyn oedd er mwyn sicrhau fod gennym ni gysylltiadau cryf gyda'r grwpiau targed gwahanol fel bod canran uchel ohonynt yn ymateb i'r ymchwil. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r holl randdeiliaid gyfrannu tystiolaeth a mewnbwn os oeddynt yn dymuno.

Mae costau rheoli rhaglenni grantiau'r sector cyhoeddus wedi bod yn destun sawl adroddiad ac yn sail i sawl cynnig gan amryw o gyrff gwahanol. Byddwn yn bwrw golwg dros y rhain yn yr adroddiad hwn. Mae'r corff yma o waith yn cynnig amrywiaeth helaeth o syniadau er mwyn ceisio diffinio beth ddylai costau rheoli dalu amdanynt nhw, a sut mae eu gweithredu a'u hasesu. Nid oes, felly, unrhyw ddull safonol, ac yn sicr mae sawl awgrym ynglŷn â'r dull gorau.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canlyniadau

1. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos ar awdurdodau lleol a darparwyr. Yn ôl yr astudiaethau achos mae gan awdurdodau lleol a darparwyr amrywiaeth eang o ddulliau sy'n gysylltiedig â chostau rheoli'r cynllun Cefnogi Pobl, ond mae llawer ohonynt yn aneglur.
2. Mae'r astudiaethau achos yn dangos bod arferion da hefyd. Mae rhai awdurdodau lleol a rhai darparwyr yn ystyried y problemau ac yn canolbwyntio ar ffyrdd o leihau costau rheoli a sicrhau eu bod wedi eu cyfrifo yn deg ac yn eglur.
3. Yn ôl y gwerthusiad, un o'r prif broblemau yw ceisio diffinio beth yn union yw costau rheoli. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw gysondeb yn y ffordd o benderfynu pa fath o wariant sy'n cyfrif fel 'costau rheoli' yn y rhaglen Cefnogi Pobl ac mae gan awdurdodau lleol a darparwyr ddiffiniadau gwahanol. Yn fwy na hynny, mae awdurdodau lleol unigol, yn ogystal â darparwyr unigol, yn meddu ar farn wahanol ynghylch beth sydd yn eu tyb nhw yn gost reoli.
4. Wrth inni ddiffinio costau rheoli, un o'r elfennau hanfodol yw adnabod pa fath o wariant sy'n gymwys i'w gyfrif fel cost rheoli. Wrth werthuso'r data a'r cyfweiliadau fe welwn ni fod gwahaniaeth barn rhwng awdurdodau lleol a darparwyr ynghylch pa fathau o wariant sy'n gymwys, yn eu tyb nhw, i fod yn rhan o'r costau rheoli. Ond yn fwy na hynny, maen nhw hefyd yn trin amryw o elfennau gwariant prosiect mewn ffyrdd gwahanol.
5. Nid oes unrhyw dîm Cefnogi Pobl mewn unrhyw awdurdod lleol yn defnyddio canllaw safonol y diwydiant - *Service Reporting Code of Practice* (SerCOP) – a gyhoeddwyd gan CIPFA.
6. Mae'r elfennau gwariant sy'n cyfrif fel costau rheoli darparwr bron iawn yn llwyr ddibynnu ar sut mae'r mudiad hwnnw'n diffinio costau rheoli.
7. Mae canfyddiadau'r ymchwili yn dangos fod diffyg cysondeb yn y mathau o wariant sy'n rhan o'r costau rheoli yr un mor gyffredin ymysg darparwyr bychain ag yr oedd ymysg y rhai mwy.

8. Yn ôl yr ymchwil, dim ond ychydig o awdurdodau sydd wedi llunio polisïau er mwyn mynd i'r afael â phroblem costau rheoli Cefnogi Pobl, ac mae'n ymddangos fod llawer yn ceisio datrys y broblem dim ond wrth iddo godi. I ychwanegu at y broblem, mae darparwyr hefyd yn defnyddio sawl ffordd wahanol o godi prisiau.
9. Mae peth tystiolaeth fod awdurdodau lleol a darparwyr yn dechrau ymdrin â chostau rheoli mewn ffordd wahanol o ganlyniad i doriadau nawdd mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod eu gwneud oherwydd pwysau ariannol cynyddol.
10. Yn ôl y dystiolaeth, dim ond ychydig o arian sy'n weddill o arian grant Cefnogi Pobl, naill ai gan fod y costau rheoli'n uchel neu am resymau eraill. Yn yr achosion prin hynny lle mae ychydig o arian prosiect dros ben, bydd yn mynd tuag at ariannu prosiect y flwyddyn ganlynol, neu fel cymhorthdal i fentrau eraill Cefnogi Pobl.
11. Mae awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau yn diffinio ac yn defnyddio costau rheoli mewn sawl ffordd wahanol. Oherwydd hyn, mae faint o arian Cefnogi Pobl sy'n cael ei ddefnyddio hefyd yn amrywio. Yn ôl yr ymchwil, mae costau prosiect yn amrywio o un eithaf i'r llall, o 1.4% ar ei isaf hyd at 37%.
12. Y gost arferol yng Nghymru ar gyfer costau rheoli prosiectau Cefnogi Pobl yw oddeutu 10-15% o arian cyfan y prosiect.
13. Yn ôl ymatebion yr arolygon, mae costau rheoli Cefnogi Pobl yn creu problemau i'r awdurdodau lleol. Hefyd, yn ôl y data, mae canran sylweddol o awdurdodau lleol yn credu bod modd gwella'r ffordd maen nhw'n talu costau rheoli.
14. Mae'n ymddangos fod sylwadau'n fwy amrywiol ymysg y darparwyr. Roedd y rhai oedd eisiau gweld gwelliant yn aml yn crybwyll diffyg diffiniad cyson o ran beth sy'n cyfrif fel costau rheoli a'r problemau wrth geisio adfer y costau yn eu cyfanrwydd.
15. Mae canlyniadau'r ymchwil yn tanlinellu pwysigrwydd adolygu problem costau rheoli'r cynllun Cefnogi Pobl. Mae'r costau rheoli yn rhan arwyddocaol o gostau'r cynllun

o hyd - yn wir, rydym ni'n amcangyfrif fod rhwng £12-18 miliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar gostau rheoli, hyd yn oed ar lefelau gwario is Cefnogi Pobl yn 2015/16. Ond efallai yn fwy pryderus, mae hi'n amhosibl inni fod yn fwy manwl, nid yn unig oherwydd bod y data sylfaenol yn anghyflawn ond hefyd gan fod diffiniadau a dulliau enwi yn amrywio cymaint fel y byddai unrhyw ymgais i fanylu ymhellach yn anaddas.

16. Rhaid nodi, lle mae costau rheoli yn uchel, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu gwerth gwael am arian neu ymddygiad gwael gan y darparwyr neu'r awdurdodau lleol o dan sylw. Ond mae hyn yn tanlinellu eto pa mor bwysig yw sicrhau fod costau rheoli mor isel â phosib yn ogystal â sicrhau bod y sgiliau a'r gallu gweinyddol cywir ar gael o fewn y mudiadau i reoli'r grant a darparu'r gwasanaethau o'r safon ddisgwyliedig.

17. O ran gweinyddiaeth ariannol dda, mae'r amrywiaeth eang yma yn creu ansicrwydd sylweddol. Mae'r ymchwil hefyd yn pwysleisio fod darparwyr ac awdurdodau lleol yn

pryderu ynglŷn â chostau rheoli, yn enwedig o ran tegwch ac atebolrwydd. Rydym ni wedi dod i'r canlyniad y byddai buddsoddi ychydig mwy o arian ac ymdrech mewn modd cymesur yn dwyn ffrwyth gwerthfawr o ran arbedion ac ail-gyfeirio arian at wasanaethau'r rheng flaen.

18. Yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymchwil hwn, rydym ni'n cynnig cyfres o egwyddorion dylunio ar gyfer system costau rheoli'r cynllun Cefnogi Pobl.

19. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig diffiniad ar beth ddylai fod yn rhan o'r costau rheoli. Yn hyn o beth rydym ni wedi ystyried canfyddiadau gweithiau technegol blaenorol ac astudiaethau eraill ar y pwnc hwn yn ogystal â rhai diffiniadau mae rhai darparwyr ac awdurdodau lleol yn eu defnyddio'n barod. Mae hyn yn ein golwg ni yn ei gwneud hi'n haws llunio diffiniad y bydd croeso ehangach iddo.

20. Rydym ni'n cynnig fod Llywodraeth Cymru yn gosod cap terfyn ar y costau rheoli fel na ddylent fod yn fwy na 10% o grant y darparwr. Rydym ni'n cynnig y cap hwn gan fod llawer o ddarparwyr

eisoes yn gwneud yn well na hyn a rhai awdurdodau yn cyrraedd lefelau cyfartaledd is na yn barod. Mae hefyd gan ei fod yn gofyn am ychydig o ymdrech ar ran y darparwyr.

21. Dylai'r cap hwn roi rheidrwydd ar ddarparwyr i 'gydymffurfio neu egluro' fel ei fod yn glir ac yn eglur, ond yn gallu bod ychydig yn hyblyg ar yr un pryd.

22. Rydym ni'n argymhell fod y system o fonitro a rheoli costau rheoli yn defnyddio'r trefniadau presennol cymaint ag sy'n bosibl.

23. Mae hi hefyd yn bwysig fod darparwyr ac awdurdodau lleol yn dysgu oddi wrth ei gilydd am yr hyn mae modd ei gyflawni a beth sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y maes hwn. Mae'r adroddiad yn cynnig ffyrdd o wneud hyn.

Dr Clive Grace OBE, Mike Bennett a
Liam Whittington
19 Hydref 2015

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Sheilah Gaughan
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffon: 0300 062 8258

Ebost :

sheilah.gaughan@wales.gsi.gov.uk

ISBN 978-1-4734-4791-2

© Hawlfraint y Goron 2015



Pob cynnwys ar gael o dan y
Drwydded Llywodraeth Agored v3.0,
heblaw am pryd y nodwyd fel arall:
<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>